**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

At sylw:

Y Ffederasiwn Busnesau Bach

Y Gymdeithas Pecynnu Gwasanaeth Bwyd

AVA: Y Gymdeithas Gwerthu a Manwerthu Awtomataidd

Ffederasiwn Plastigau Prydain

Cymdeithas Siopau Cyfleustra

UK Hospitality Cymru

25 Gorffennaf 2023

Annwyl gyfeillion,

Fel y gwyddoch, fe wnaeth Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith Senedd Cymru graffu ar y Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) a ddaeth i rym yn ddiweddar. Yn ystod y broses graffu honno, rhoddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd nifer o ymrwymiadau'n ymwneud â'r camau y byddai Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i godi ymwybyddiaeth o'r gwaharddiadau arfaethedig a datblygu canllawiau manwl i fusnesau.

Mewn ymateb i lythyr a gafodd gan y Pwyllgor yn ddiweddar, rhoddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd fraslun o gynllun cyfathrebu Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys rhyddhau deunyddiau cyfathrebu cenedlaethol, cynnwys cyfryngau cymdeithasol, ac animeiddiad yn rhoi'r wybodaeth berthnasol. Dywedodd hefyd fod gwefan Llywodraeth Cymru wedi'i diweddaru a'i bod yn awr yn cynnwys gwybodaeth am effaith y Ddeddf a'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer y gwaharddiadau arfaethedig a gyflwynir gan y Ddeddf. Deallwn fod y canllawiau i helpu i roi'r Ddeddf ar waith wrthi'n cael eu paratoi ac y cânt eu cyhoeddi cyn diwedd mis Gorffennaf. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd fod y Rheoliadau i gyflwyno'r gwaharddiadau cyntaf o dan y Ddeddf yn cael eu paratoi ac y cânt eu cyflwyno ym mis Hydref.

Mae'n hanfodol bod y busnesau rydych chi'n eu cynrychioli'n deall y mesurau hyn. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn rhoi sylwadau ar y canlynol:

- Pa mor effeithiol ydych chi'n credu yw'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth ymhlith y busnesau rydych chi'n eu cynrychioli?

- A yw'r busnesau rydych chi'n eu cynrychioli yn ymwybodol o'r bwriad i gyflwyno'r gwaharddiadau cyntaf mewn perthynas â rhai plastigau untro ym mis Hydref?
- A yw'r wybodaeth a'r arweiniad a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol ac yn ddigon clir i alluogi busnesau i ddeall eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 6 Medi. Bydd eich ymatebion yn ein helpu i asesu pa mor effeithiol yw ymdrechion Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau cyn cyflwyno'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig i ddod â'r gwaharddiadau dan sylw i rym ym mis Hydref.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.